# Cyflwyno pum Medal Gee i ffyddloniaid ysgol Sul Capel Newydd, Llanddarog

Pnawn Mercher, 6 Hydref, braint arbennig i Gyngor yr Ysgolion Sul oedd cyflwyno pum medal i griw ffyddlon a gweithgar Capel Newydd, Llanddarog, am oes o wasanaeth diwyd a ffyddlon i'w hysgol Sul.

Daeth nifer dda ynghyd ar gyfer y cyfarfod, a braf oedd gweld teuluoedd y rhai oedd yn derbyn medal yn bresennol. Trefnwyd y cyfarfod yn ofalus iawn gan weinidog yr eglwys, y Parch Emyr Williams. Fodd bynnag, ar y diwrnod bu'n rhaid i Emyr fodloni ar wylio'r gwasanaeth dros Zoom, gan ei fod wedi cael cais i hunanynysu ar y pryd. Braf oedd medru darlledu'r gwasanaeth yn fyw ar Zoom, a hynny'n caniatáu i fwy o bobl fod yn rhan o'r achlysur.

Wedi gair o groeso gan Aled Davies ar ran y Cyngor, yn absenoldeb anorfod Emyr, cymerwyd at y defosiwn gan Delyth Wyn Davies. Aed ymlaen wedyn i gyflwyno'r medalau i'r canlynol:

### Margaret Beryl Voyle

Bu'n arolygwr yr ysgol Sul am nifer o flynyddoedd, ac yn athrawes ers 1974. Bu'n ddiwyd yn paratoi plant ar gyfer y cwis Beiblaidd blynyddol, cyngherddau plant yn y capel, trefnydd y trip ysgol Sul a sawl cyngerdd i godi arian at elusen. Hi hefyd oedd cynrychiolydd yr ysgol Sul ar bwyllgor Menter Gristnogol MIC.

### Alun Lloyd Voyle

Bu Alun yn aelod ffyddlon o ddosbarth yr oedolion yn y capel am flynyddoedd lawer, ac mae wedi bod yn rhan o'r ysgol Sul yn y capel ers 65 o flynyddoedd. Mae'n flaenor ers 1968 ac yn aelod hynod weithgar.

### Alun Williams

Mae Alun yn aelod o'r ysgol Sul ers 62 o flynyddoedd, ac wedi gwasanaethu fel ysgrifennydd, arolygwr a thrysorydd yn ei dro. Erbyn hyn ef yw athro dosbarth yr oedolion.

### Daniel Keith Williams

Bu Daniel yn drysorydd yr ysgol Sul am gyfnod o ddeugain mlynedd, ac yn arolygwr droeon. Bu hefyd yn athro ar ddosbarth yr ieuenctid am flynyddoedd lawer. Mae hefyd yn organydd yn y capel ac am flynyddoedd bu'n gyfrifol am ddysgu emynau o'r Detholiad i'r plant.

### Marian Margaret Williams

Bu Marian yn ysgrifennydd yr ysgol Sul ar sawl achlysur, ac yn arolygwr yn ei thro. Mae wedi treulio blynyddoedd lawer yn hyfforddi'r plant ar gyfer dramâu a dathliadau, gan gynnwys cyflwyniadau Norah Isaac a Nan Lewis. Bu'n hyfforddi plant hefyd ar gyfer y cwis Beiblaidd blynyddol gan Gyngor yr Ysgolion Sul, ac roedd y tîm yn enillwyr cenedlaethol yn 2002.

Yn dilyn hyn, aed ymlaen i gyflwyno tair medal arall, er anrhydedd, i dri a wnaeth gyfraniad nodedig yn hanes yr ysgol Sul yn genedlaethol, sef i'r Parchedigion Ifan a Catrin Roberts, a Mr Nigel Davies (cawn yr hanes hwn yn *Cenn@d* yr wythnos nesaf).

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben, diolchodd Aled Davies am ymroddiad y pum medalydd yn lleol, ac am gyfraniad Ifan, Catrin a Nigel i fywyd a gwaith ysgolion Sul a chlybiau plant Cymru.

Roedd chwiorydd y capel wedi bod yn brysur yn paratoi gwledd ar ein cyfer, a diolch am gyfle i sgwrsio yn ein seddau wrth fwynhau paned a chacen.

*Aled Davies*
*Cyngor yr Ysgolion Sul*



*Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

## Symposiwm 'Salmau Cân Edmwnd Prys a'u Gwaddol'

**Trefnir symposiwm gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy gyfrwng Zoom yn ystod mis Tachwedd 2021 i nodi 400 mlwyddiant cyhoeddi Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621.**

**Bydd y symposiwn ar ffurf darlith wythnosol dros dair wythnos. Ni chodir tâl, ond rhaid cofrestru.**
**Croeso cynnes i bawb.**

**15 Tachwedd @5.30 o'r gloch**
'Campwaith Edmwnd Prys: Salmau Cân 1621' - Gruffydd Aled Williams
Byddwn yn agor y Symposiwm yng nghwmni Gruffydd Aled Williams wrth iddo ddathlu cyfraniad arbennig Salmau Cân Edmwnd Prys a gyhoeddwyd bedwar can mlynedd yn ôl.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/campwaith-edmwnd-prys-salmau-can-1621/e-qjdvlq

**22 Tachwedd @5.30 o'r gloch**
'Nodau ar bapur: cyhoeddi cerddoriaeth yng Nghymru drwy'r canrifoedd' – Rhidian Griffiths
Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621 oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys cerddoriaeth wedi'i hargraffu. Yn yr ail ddarlith yn y gyfres byddwn yn bwrw golwg ar ddatblygiad y traddodiad o argraffu cerddoriaeth yn y canrifoedd a ddilynodd y cyhoeddiad cyntaf hwnnw.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/nodau-ar-bapur-cyhoeddi-cerddoriaeth-yng-nghymru-drwy-r-canrifoedd/e-zroblo

**29 Tachwedd @5.30 o'r gloch**
'Mydryddu'r Salmau: pedwar o olynwyr Edmwnd Prys' – Robert Rhys
I gloi'r gyfres yn nodi pedwar canmlwyddiant cyhoeddi Salmau Cân Edmwnd Prys bydd Robert Rhys yn cyflwyno ac yn cloriannu salmau mydryddol Dafydd Jones o Gaeo, Morris Williams (Nicander), Gwilym Hiraethog a Gwynn ap Gwilym.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/mydryddu-r-salmau-pedwar-o-olynwyr-edmwnd-prys/e-vpxvkj

**Mae copi o Salmau Cân 1621 i'w weld yn yr arddangosfa 'Beibl i Bawb' sydd yn Oriel Hengwrt yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhwng 1 Hydref 2021 a 2 Ebrill 2022:**
https://www.llyfrgell.cymru/ymweld-a-ni/pethau-iw-gwneud/arddangosfeydd/beibl-i-bawb